Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
27/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/05/2017

# Y dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-4734-9630-9

Teitl: Y dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:  Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

Awduron: Eleri Jones a Sharon Cross, Llywodraeth Cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr. Eleri Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0 536

E-bost: eleri.jones061@cymru.gsi.gov.uk

## Y Cynnwys

1. Cyflwyniad ........................................ 4

Cefndir ........................................ 4

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ........................................ 4

Y dull cydgynhyrchiol ........................................ 4

Fformat y grwpiau ........................................ 5

Nodau'r gwaith ymchwil ........................................ 6

Strwythur yr adroddiad ........................................ 6

2. Methodoleg ........................................ 7

Y sampl ........................................ 7

Cyfweliadau ........................................ 8

Dadansoddi ........................................ 9

3. Canfyddiadau ........................................ 11

Defnyddio dull cydgynhyrchiol ........................................ 11

Y defnydd a wnaed o wybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid ........................................ 11

Cynrychiolaeth ar y Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol ........................................ 12

Cynrychiolaeth o fewn y Panel Dinasyddion ........................................ 14

Cynrychiolaeth dinasyddion ar draws grwpiau ........................................ 15

Ymgysylltu ehangach ........................................ 16

Cydgynhyrchu yn ymarferol ........................................ 18

Y bartneriaeth â Llywodraeth Cymru ........................................ 18

Cyfle i rannu safbwyntiau ........................................ 21

Ystyried safbwyntiau ........................................ 23

Effeithiolrwydd cyfraniad rhanddeiliaid ........................................ 24

Y broses a'r agweddau ymarferol ........................................ 26

Lleoliad cyfarfodydd ........................................ 26

Nifer y cyfarfodydd a'r amserlen ........................................ 27

Trefniadau hwyluso a fformat y Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol ........................................ 27

Trefniadau hwyluso a fformat y Panel Dinasyddion ........................................ 29

Cyswllt cyfyngedig rhwng grwpiau ........................................ 30

Buddiannau cydgynhyrchu ........................................ 32

Pwysigrwydd cael safbwyntiau amrywiol ....................................................................32
Mwy o berchenogaeth ymhlith rhanddeiliaid dros y newid polisi....................................33
Dealltwriaeth well ymhlith rhanddeiliaid o'r polisi a phrosesau......................................33
Ymdrechion rhanddeiliaid i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt .....................................34
Cydberthnasau gwaith cryfach â Llywodraeth Cymru ....................................................35
Atodiad A: Canllaw Cyfweliad.............................................................................................37

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

1.1 Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae'n cynnwys 11 rhan ac mae pob un ohonynt yn amlinellu dyletswyddau a gofynion penodol a osodir ar y sawl sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf.

1.2 Mae'r fframwaith statudol sy'n sail i'r Ddeddf yn cynnwys rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol sydd wedi'u pasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth y Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016.

*Y dull cydgynhyrchiol*

1.3 Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ddull cydgynhyrchiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector gofal cymdeithasol er mwyn datblygu'r fframwaith statudol. Roedd dwy elfen i'r dull hwn. Yn gyntaf, cafodd tri grŵp ymgysylltu eu sefydlu yn 2014 ar lefel strategol ac ar lefel arwain er mwyn pennu cyfeiriad: Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol (y Fforwm Partneriaeth o hyn ymlaen), y Grŵp Arwain, a Phanel Cenedlaethol Dinasyddion Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol (y Panel Dinasyddion o hyn ymlaen).

1.4 Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys arweinwyr gwleidyddol o lywodraeth leol, y sector iechyd, y sector gwirfoddol a'r sector preifat; arweinwyr proffesiynol y gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru; ac aelodau o'r cyhoedd â phrofiad personol o wasanaethau gofal a chymorth.

1.5 Roedd gan bob grŵp ei gylch gwaith ei hun, ond roedd ganddynt amcanion cyffredin, sef darparu arweinyddiaeth ymarferol a chamau gweithredu ar y rhaglen newid arfaethedig a helpu i ddatblygu a llunio polisi drwy herio'r fframwaith statudol a ddatblygwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn ffordd adeiladol a chraffu arno.

1.6 Yn ail, bu gwaith ymgysylltu ar lefel gwasanaeth er mwyn datblygu'r polisi manwl. Cafodd nifer o grwpiau technegol eu sefydlu a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Gweithiodd y grwpiau technegol gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol ar gyfer pob rhan o'r Ddeddf.

1.7 Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol cyn iddynt gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hwylusodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiadau i gefnogi'r ymgynghoriad. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i randdeiliaid allweddol ddysgu am y cynigion gweithredu a bwydo'r wybodaeth hon yn ôl i'w sefydliadau er mwyn helpu i baratoi ymatebion i'r ymgynghoriad.

*Fformat y grwpiau*

1.8 Cynhaliwyd cyfarfodydd y Grŵp Arwain yn chwarterol rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2016, a'r Cadeirydd oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru. Roedd y grŵp hwn yn mesur cynnydd ac yn mynd i'r afael â chamau gweithredu i wneud newidiadau.

1.9 Cynhaliwyd cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth yn chwarterol rhwng mis Ebrill 2014 a mis Chwefror 2016, a'r cadeirydd oedd y cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni chafodd aelodau'r Fforwm Partneriaeth eu cynnwys yn y gwaith ymchwil hwn (gweler paragraff 2.2 am ragor o fanylion).

1.10 Gwahoddwyd sefydliadau rhanddeiliaid o'r sector gofal cymdeithasol i enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y grwpiau technegol oedd â'r arbenigedd perthnasol, y wybodaeth dechnegol a'r profiad ymarferol i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y polisi manwl. Er bod gan bob grŵp ei drefniadau eu hun, cynhaliodd y rhan fwyaf ohonynt dri neu bedwar cyfarfod dros gyfnod diffiniedig. Roedd pob grŵp yn trafod ac yn dadlau'r materion allweddol a oedd yn ymwneud â rhan benodol o'r Ddeddf ac yn rhoi barn ar sail ei wybodaeth, ei brofiad a'i arbenigedd.

1.11 Cafodd pobl eu recriwtio i'r Panel Dinasyddion drwy broses ddethol gyhoeddus, a oedd yn cynnwys ffurflen gais a chyfweliad. Cynhaliodd y panel 13 o gyfarfodydd rhwng mis Ionawr 2014 a mis Ebrill 2016. Hwylusodd Llywodraeth Cymru y panel yn ystod y camau cynnar ac, yn ddiweddarach, cafodd hwylusydd annibynnol ei benodi i gyflawni'r rôl hon. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniadau byr gan gynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r trydydd sector, yn ogystal â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Ar ôl y cyflwyniadau, byddai cyfle i ddadlau a thrafod. Roedd y panel yn ystyried materion a chwestiynau allweddol ac yn rhoi barn ar sail ei wybodaeth, ei brofiad a'i arbenigedd. Roedd rhai o swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd, a mynychodd Gweinidogion Cynulliad

Cenedlaethol Cymru rai cyfarfodydd hefyd. Roedd yr hwylusydd annibynnol yn llunio adroddiad ysgrifenedig ar ôl pob cyfarfod mewn fformatau safonol a hawdd eu darllen. Cafwyd cyfraniadau eraill ar ffurf ysgrifenedig ac ar ffilm, gan roi'r cyfle i aelodau rannu eu profiadau drwy ffyrdd amrywiol. Cynhaliwyd sesiynau Skype rheolaidd hefyd rhwng cyfarfodydd, er mwyn trafod yr adroddiadau yn bennaf.

**Nodau'r gwaith ymchwil**

1.12 Gwnaeth Ymchwilwyr Cymdeithasol Llywodraeth Cymru waith ymchwil mewnol i werthuso'r dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r fframwaith statudol sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pwrpas y gwaith ymchwil oedd deall safbwyntiau rhanddeiliaid ar sut roedd y dull cydgynhyrchiol wedi gweithio'n ymarferol, gan gynnwys yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella. Y nod oedd canfod gwersi i'w dysgu er mwyn helpu i lywio dulliau o weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol.

**Strwythur yr adroddiad**

1.13 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae adran 2 yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith ymchwil.
- Mae adran 3 yn cyflwyno’r canfyddiadau. Yn gyntaf, mae'r adran canfyddiadau yn cyflwyno sylwadau cyffredinol rhanddeiliaid ynghylch defnyddio dull cydgynhyrchiol i ddatblygu'r fframwaith statudol. Yna mae'n symud ymlaen i gyflwyno safbwyntiau rhanddeiliaid ar y dull, gan gynnwys y defnydd a wnaed o wybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid, sut roedd y dull wedi gweithio'n ymarferol, a’r broses a'r agweddau ymarferol. Yn olaf, mae’r adran yn cyflwyno safbwyntiau rhanddeiliaid ar fuddiannau cydgynhyrchu.

## 2. Methodoleg

2.1 Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn oedd cyfweliadau ansoddol unigol â rhanddeiliaid. Y rhesymeg ar gyfer hyn oedd bod cyfweliadau o'r fath yn golygu y gellir ystyried safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid mewn perthynas â'r dull cydgynhyrchiol yn fanylach nag y byddai wedi bod yn bosibl gydag arolwg. Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull samplu, y cyfweliadau a'r gwaith dadansoddi.

**Y sampl**

2.2 Defnyddiwyd dull bwriadus i nodi sampl o 20 o randdeiliaid i gymryd rhan yn yr ymchwil. Prif nod y strategaeth samplu oedd cael ystod o safbwyntiau ar y dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd. Er mwyn cael safbwyntiau rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy ar lefel arwain er mwyn pennu cyfeiriad, cafodd y Grŵp Arwain a'r Panel Dinasyddion eu cynnwys. Cafwyd safbwyntiau rhanddeiliaid strategol, uwch gan bum aelod o'r Grŵp Arwain. Cafwyd safbwyntiau pobl sy'n cael neu'n darparu gofal a chymorth gan bum aelod o'r Panel Dinasyddion. Ni chafodd y Fforwm Partneriaeth ei gynnwys yn y dull samplu am fod angen blaenoriaethu grwpiau rhanddeiliaid o ganlyniad i gyfyngiadau ar faint y sampl.

2.3 Er mwyn cael safbwyntiau rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy ar lefel gwasanaeth er mwyn datblygu'r polisi manwl, cafodd deg aelod o'r grwpiau technegol eu cynnwys. Roedd sampl y grwpiau technegol yn fwy o ganlyniad i'r nifer fawr o randdeiliaid a oedd yn perthyn i'r gwahanol grwpiau.

2.4 Gan fod yr ymchwil yn canolbwyntio ar y grwpiau a oedd wedi chwarae rhan fwy dwys yn y broses, ni chafodd y rhai a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangach eu cynnwys. Ni chafodd swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â grwpiau eu cynnwys yn yr ymchwil chwaith.

2.5 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis y sampl ar gyfer pob un o'r tri grŵp a gafodd eu cynnwys yn yr ymchwil. Dewiswyd y sampl, yn unol â'r meini prawf hyn, o restr o aelodau'r grwpiau a ddarparwyd gan gydweithwyr polisi. Anfonwyd e-bost at y rhai a ddewiswyd yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil. Cafodd cyfanswm o 36 o wahoddiadau e-bost eu hanfon er mwyn cael sampl o 20 o randdeiliaid a oedd yn bodloni'r meini prawf.

**Tabl 2.1: Meini prawf samplu**

| Grŵp (maint y sampl) | Meini Prawf Samplu |
|---|---|
| Grŵp Arwain (n=5) | Cynnwys aelodau grŵp o amrywiaeth o sectorau, fel llywodraeth leol, iechyd a'r trydydd sector. |
| Panel Dinasyddion (n=5) | Cynnwys aelodau panel sy'n cael gofal a chymorth, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth. |
| Grwpiau technegol (n=10) | Cynnwys o leiaf un aelod o bob un o'r grwpiau technegol canlynol:<br>Eiriolaeth<br>Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan<br>Asesu a chynllunio gofal<br>Cymhwysedd<br>Gwybodaeth, cyngor a chymorth<br>Mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol<br>Atal ac asesu'r boblogaeth<br>Grŵp llywio sefydliadau diogel<br>Mentrau cymdeithasol<br>(Noder: roedd rhai unigolion yn rhan o fwy nag un grŵp technegol) |
| | Y niferoedd canlynol ar gyfer sectorau:<br>Y sector statudol (n=5)<br>Y trydydd sector (n=3)<br>Y sector annibynnol (n=2) |

**Cyfweliadau**

2.6 Cynhaliodd un o ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru 19 o gyfweliadau rhwng 6 Medi a 9 Tachwedd 2016. Gofynnodd un rhanddeiliad am gael ymateb yn ysgrifenedig, felly anfonwyd y cwestiynau a derbyniwyd yr ymatebion yn ysgrifenedig, drwy ddulliau electronig. Cafodd chwech o'r 19 o gyfweliadau eu cynnal wyneb yn wyneb a chafodd 13 eu cynnal dros y ffôn. Rhoddwyd dewis i'r rhanddeiliaid ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg. Roedd y cyfweliadau wedi amrywio rhwng 20 a 65 munud o hyd. Gwnaed recordiadau sain o'r holl gyfweliadau a gofynnwyd am ganiatâd gwybodus pob ymatebydd.

2.7 Datblygwyd canllaw cyfweld lled-strwythuredig (gweler Atodiad A). Yn ystod y cyfweliadau, ymdriniwyd â'r meysydd a nodwyd yn y canllaw a holwyd yn fanylach

ynghylch ymatebion er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o farn a phrofiadau rhanddeiliaid. Yn gryno, roedd y pynciau a drafodwyd yn y cyfweliadau yn cynnwys:

- Pwysigrwydd defnyddio dull cydgynhyrchiol
- Beth oedd wedi gweithio'n dda a beth y gellid ei wella am y dull cydgynhyrchiol
- P'un a oedd safbwyntiau wedi cael eu hystyried a ph'un a oedd cyfraniadau yn effeithiol
- Y defnydd a wnaed o wybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid
- Yr effaith ar gydberthnasau gwaith y rhanddeiliaid â Llywodraeth Cymru
- Yr effaith ar ddealltwriaeth y rhanddeiliaid o'r polisi, a ph'un a oeddent wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt.

2.8 Cafodd y canllaw cyfweld ei addasu yn ôl yr angen ar gyfer aelodau'r Panel Dinasyddion, er mwyn adlewyrchu eu hamgylchiadau gwahanol a theilwra'r cwestiynau i'w gofynion unigol.

**Dadansoddi**

2.9 Cafodd recordiadau'r cyfweliadau eu trawsgrifio air am air (a'u cyfieithu o'r Gymraeg yn ôl yr angen), a'u trosglwyddo i feddalwedd dadansoddi ansoddol MAXQDA. Cafodd yr ymatebion ysgrifenedig a gafwyd gan un rhanddeiliad eu trosglwyddo i'r feddalwedd hefyd. Cafodd y data eu dadansoddi'n thematig. Cafodd system godio ei datblygu ar sail cyfuniad o'r pynciau a oedd wedi'u cynnwys yn y canllaw cyfweld a themâu a ddaeth i'r amlwg yn anwythol o'r data.

2.10 Gwneir y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r dull y caiff y canfyddiadau eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn:

- Mae'r pwyslais ar gyflwyno'r ystod o safbwyntiau a gafwyd, yn hytrach na'u hamlder, fel sy'n briodol mewn gwaith ymchwil ansoddol.
- Mae'r canfyddiadau ar gyfer pob un o'r grwpiau wedi'u hintegreiddio yn yr adroddiad. Fodd bynnag, lle nad yw safbwyntiau neu brofiadau yn benodol i grŵp arbennig, nodir hynny.
- Mae'r data yn golygu na ellir dadansoddi'r grwpiau technegol ar wahân. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag aelodau'r grwpiau technegol fel grŵp a oedd yn rhannu'r un rôl a dull gweithredu yn fras, er y gallent fod wedi bod yn wahanol o safbwynt y manylion.

- Roedd rhanddeiliaid wedi ymwneud â rhannau penodol o'r dull cydgynhyrchiol ac felly, mewn llawer o achosion, cyfyng oedd eu dealltwriaeth o'r dull cyffredinol.
- Mae'n bosibl y gellir priodoli amrywiaeth barn rhwng rhanddeiliaid i gyfuniad o wahaniaethau rhwng unigolion – er enghraifft, profiadau, disgwyliadau a dewisiadau – a gwahaniaethau o ran sut roedd pob grŵp wedi gweithio.
- Cyflwynir dyfyniadau i ategu pwyntiau a wneir drwy gydol yr adran canfyddiadau. Cyflwynir yr holl ddyfyniadau yn Saesneg oherwydd byddai cynnwys y nifer fechan iawn o ddyfyniadau Cymraeg yn yr iaith wreiddiol yn golygu y byddai risg o beryglu statws dienw y rhanddeiliaid hyn. Dylid cydnabod y cyfyngiadau o ran cynrychioli safbwyntiau'r rhanddeiliaid hyn yn gywir.

## 3. Canfyddiadau

### Defnyddio dull cydgynhyrchiol

3.1 Roedd rhanddeiliaid yn y Grŵp Arwain, y grwpiau technegol a'r Panel Dinasyddion yn gadarnhaol iawn am ymdrech Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dull a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid a dinasyddion yn fwy yn y broses o ddatblygu polisi nag a welwyd fel arfer yn y gorffennol, yn eu barn hwy.

3.2 Nododd rhanddeiliaid fod cydgynhyrchu wrth wraidd y Ddeddf a'r math newydd o gydberthynas a ddisgwylir rhwng y llywodraeth, rhanddeiliaid a dinasyddion. Felly, gwnaethant awgrymu mai'r unig ffordd o gyflawni hyn oedd drwy symud y ddeddfwriaeth ymlaen gyda'i gilydd. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol am arwain y ffordd, gan fodelu dull partneriaeth ar raddfa fawr y mae rhanddeiliaid yn disgwyl iddo gael ei ddefnyddio'n ehangach yn y dyfodol. Dywedwyd bod y dull yn wahanol i'r model traddodiadol fel y'i gwelwyd, sef cyfarwyddiadau o'r canol. Yn unol â hyn, teimlai rhanddeiliaid eu bod yn rhan annatod o'r hyn a gynhyrchwyd yn y pen draw.

> *'Rather than just a typical old-fashioned view of the civil servant, sitting in a dark room just using their lawyer… I think there has been a genuine attempt to work with people to make sure the legislation is fit for purpose.'*

> *'It's tangible evidence of a willingness and need for us to work in a much more partnered way, and the fact that Welsh Government had the courage to lead the way… is very positive. If it can be demonstrated, as it has, to work for Welsh Government, then you think it ought to play out similarly elsewhere.'*

> *'The fact that they did put this together and they want to actually involve citizens, I think it's a good thing.'*

3.3 Dywedodd y rhanddeiliaid hefyd eu bod yn falch o gael gwahoddiad i gymryd rhan y broses ac roeddent yn gadarnhaol ar y cyfan am eu profiadau. O ran y modd roedd y dull a'r bartneriaeth wedi gweithio'n ymarferol, roedd safbwyntiau'n fwy amrywiol, gan gynnig pwyntiau dysgu adeiladol i'r dyfodol. Trafodir y safbwyntiau hyn yn y tair adran nesaf.

### Y defnydd a wnaed o wybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid

3.4 Gofynnwyd i'r sawl a gymerodd ran yn yr ymchwil p'un a oeddent yn teimlo y cafodd gwybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu'r fframwaith statudol. Gofynnwyd hefyd a oeddent yn credu bod unrhyw safbwyntiau

allweddol a gyflwynwyd gan randdeiliaid ar goll. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ar y themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â'r pynciau hyn.

*Cynrychiolaeth ar y Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol*

3.5 Roedd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol yn gadarnhaol ar y cyfan am gynrychiolaeth o fewn eu grwpiau ac ar draws y grwpiau hyn yn fwy cyffredinol, ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella. Nododd rhanddeiliaid ei bod yn ymddangos bod cyfansoddiad y grwpiau wedi cael ei ystyried yn ofalus. Fodd bynnag, safbwynt arall oedd y gellid defnyddio dull mwy ymgynghorol a pharhaus o ddewis rhanddeiliaid, ac y gallai grwpiau drafod unrhyw safbwyntiau nas cynrychiolwyd yn y cyfarfod cyntaf ac ailwerthuso hyn yn barhaus drwy gydol y broses. Pwynt cysylltiedig oedd y gall fod yn anodd i sefydliadau ddewis y cynrychiolydd mwyaf priodol ar gyfer grwpiau technegol ar y dechrau ac, felly, y gellid sicrhau hyblygrwydd i newid yr enwebiad wrth i'r gofynion ddod yn gliriach.

3.6 Yn y Grŵp Arwain, ystyriwyd bod cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn bwysig ac roedd yn ymddangos bod aelodau'n fodlon bod y rhanddeiliaid allweddol wedi'u cynrychioli.

3.7 Ar gyfer aelodau'r grwpiau technegol, roedd amrywiaeth safbwyntiau yn ganolog i'w dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn gwneud cyfansoddiad grŵp da. Dywedwyd bod amrywiaeth yn arwain at drafodaeth iach lle câi materion eu hystyried o safbwyntiau gwahanol. Roedd amrywiaeth hefyd yn annog safbwyntiau croes i ddod i'r amlwg, yn hytrach na chadarnhau'r hyn y cyfeiriodd un rhanddeiliad ato fel meddylfryd grŵp. Ar wahân i amrywiaeth, ystyriwyd bod cynnwys rhanddeiliaid gwybodus yn bwysig hefyd.

> *'It's about ensuring that we feel there is a big enough spread of different perspectives to ensure there isn't anyone who is being silenced inadvertently by that process.'*

> *'That comes back to making sure you don't have the usual crowd in the room. You have to have in my opinion diverse users and different perspectives to make sure you're at least testing your views on what's right with different types of stakeholders, because there's always the risk you get the same types of people in these things.'*

3.8 Ystyriwyd bod y grwpiau technegol yn amrywiol ar y cyfan. Dywedwyd eu bod yn gynhwysol, gan gynnwys croestoriad o bobl wahanol a phobl na fyddai wedi'u

cynnwys yn draddodiadol o bosibl. Disgrifiwyd amrywiaeth yn nhermau'r ystod o sectorau, rolau swyddi, yn ogystal â maes a statws o fewn sefydliadau, a dywedwyd y cafodd ei hadlewyrchu yn yr ystod eang o safbwyntiau a rannwyd a'r trafodaethau cyfoethog a gafwyd yn ystod cyfarfodydd.

*‘Things were shaped and moulded in the group I was in as we progressed from meeting to meeting, as a result of the fact there were a cohort of people there who all had a different viewpoint and different experiences to share.’*

3.9 Fodd bynnag, ni theimlai holl aelodau'r grwpiau technegol fod eu grwpiau mor amrywiol ag y gallent fod. Er enghraifft, dywedodd aelod un grŵp technegol ei fod yn teimlo bod ei grŵp yn gogwyddo tuag at safbwynt proffesiynol penodol, a oedd yn rhagori ar safbwyntiau eraill. Ym marn yr aelod hwn, roedd hyn wedi cyfrannu at ganlyniad a ddisgrifiwyd fel addasiad o fodel traddodiadol, heb ystyried unrhyw opsiynau arloesol neu hollol wahanol. Disgrifiodd eraill senarios tebyg, fel y gwelir yn y dyfyniad isod.

*‘I think it was the people who are most thoroughly involved that had the most input into the process. I think too many people were invited that say the same thing.’*

3.10 Safbwynt arall gan aelod un grŵp technegol oedd bod amserlen dynn wedi effeithio ar y gallu i sicrhau cynrychiolaeth eang.

*‘The more views you have on an item you are discussing, the best it is going to be. I think that wasn’t maximised really because we had such a short time scale, so it had to be done quickly. Whoever could be involved was involved, but maybe the best people or extra people weren’t able to engage in that process.’*

3.11 Roedd hi'n ymddangos bod safbwyntiau ar gynrychiolaeth ar draws sectorau yn dibynnu ar grŵp a diddordeb yr unigolyn. Er enghraifft, dywedodd rhai o aelodau'r grwpiau technegol fod y trydydd sector neu lywodraeth leol wedi'u gorgynrychioli yn eu grwpiau, tra dywedodd eraill nad oeddent wedi'u cynrychioli ddigon. Un pwynt nodedig, fodd bynnag, oedd bod rhai o aelodau'r grwpiau technegol o'r farn bod diffyg cydbwysedd rhwng gwasanaethau cymdeithasol ar y naill law ac iechyd ar y llaw arall, a dywedwyd bod i hyn oblygiadau ymarferol o ran gwybodaeth a chefnogaeth i'r Ddeddf o fewn y sector iechyd. Un awgrym a wnaed oedd y gellid bod wedi sefydlu grŵp technegol ar gyfer y rhyngwyneb rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd er mwyn ystyried y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â mwy o integreiddio.

*'There is reference throughout the legislation to having ongoing involvement of health and social services together. But I think that whole process of how they're going to work together in a meaningful way, I think, could have been sped up by having greater health input throughout the whole consultative process because there is a massive gap of knowledge in health about the Social Services and Well-being Act in practical terms.'*

3.12 Hefyd, teimlai rhai o aelodau'r grwpiau technegol – yn ogystal ag aelodau'r Grŵp Arwain – fod y cydbwysedd yn gwyro tuag at weithwyr polisi proffesiynol a rheolwyr, ac y gellid bod wedi atgyfnerthu'r ochr gyflawni. Datblygir y pwynt hwn ymhellach yn yr adran isod ar ymgysylltu ehangach.

*'The independent sector is quite often overlooked, but they are the ones who are managing things on a day to day basis and can add so much value to the conversations… Sometimes you feel as if there should be more focus on the delivery end of care.'*

*'We had citizens, which was great, but not many of them will know what it's like to operate and deliver the service. We had the political view, we had the leaders view, but I think the bit we missed was the practitioner view.'*

3.13 Nododd rhai rhanddeiliaid fod amser ac adnoddau cyfyngedig wedi golygu ei bod yn amhosibl gwahodd pawb. Cydnabuwyd hefyd, po fwyaf o safbwyntiau a gynrychiolir, y mwyaf heriol yw hi i integreiddio'r safbwyntiau gwahanol hynny. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ystyriwyd ei bod yn bwysig buddsoddi mewn sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ymhlith rhanddeiliaid. Un safbwynt a oedd yn mynd yn groes i'r llif oedd bod cynnwys gormod o grwpiau a rhanddeiliaid yn golygu bod y broses gwneud penderfyniadau yn lletchwith ac yn anodd. Teimlai'r ymatebydd y dylai'r sefydliadau hynny sy'n gwbl greiddiol i'r ffordd y caiff y Ddeddf ei symud ymlaen, gael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cynrychioli agenda fwy penodol.

*Cynrychiolaeth o fewn y Panel Dinasyddion*

3.14 Roedd aelodau'r Panel Dinasyddion yn gadarnhaol ar y cyfan am gynrychiolaeth o fewn eu grŵp. Fel gyda'r grwpiau technegol, mynegwyd hyn yn nhermau lefel yr amrywiaeth a'r hyn roedd hyn wedi'i olygu o ran amrywiaeth y safbwyntiau a leisiwyd. Iddynt hwy, roedd gwahaniaethau mawr a ddaeth i'r amlwg yn eu profiadau wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth gan ddinasyddion o amrywiaeth o gefndiroedd. Ystyriwyd bod cynnwys pobl a oedd yn darparu, yn ogystal â derbyn, gofal a chymorth yn bwysig, ynghyd â chynnwys pobl a oedd yn

cael mathau gwahanol o ofal a chymorth. Ystyriwyd bod amrywiaeth ranbarthol yn bwysig hefyd o gofio'r gwahaniaethau a welwyd rhwng profiadau ledled y wlad.

*‘I thought what worked well was the diversity of citizen panel members.’*

3.15 Un rhan o'r boblogaeth y teimlwyd ei bod yn cael ei thangynrychioli ar y panel oedd plant a phobl ifanc. Cafodd rhai pobl ifanc â phrofiad o'r system ofal eu cynnwys i ddechrau, ond mae'n debyg y gwnaethant roi'r gorau i gymryd rhan yn gynnar yn y broses. Nodwyd y gallent fod wedi teimlo'n anghyfforddus neu wedi'i chael hi'n anodd uniaethu â rhai o'r materion a oedd yn cael eu trafod, fel gofal i'r henoed. Un awgrym oedd y dylid sefydlu grŵp ar wahân ar gyfer dinasyddion iau, ond nodwyd bod llawer o faterion yn rhychwantu grwpiau oedran.

3.16 Sylw arall a gafwyd ynghylch cynrychiolaeth y Panel Dinasyddion oedd mai'r un bobl sy'n cael eu gwahodd i roi llais y dinesydd yn aml, ac felly nad oedd y safbwyntiau a fynegwyd yn newydd iawn o reidrwydd. Felly, ystyriwyd ei bod yn werthfawr ceisio barn dinasyddion nad ydynt yn cymryd rhan mewn prosesau o'r fath fel arfer.

*Cynrychiolaeth dinasyddion ar draws grwpiau*

3.17 Roedd aelodau'r Grŵp Arwain yn gadarnhaol ar y cyfan am gynrychiolaeth dinasyddion drwy'r Panel Dinasyddion. Roedd aelodau'r grwpiau technegol yn llai cadarnhaol. Ar ôl holi ymhellach, gwelwyd bod dau ffactor yn cyfrannu at y farn hon. Un ffactor oedd mai cyfyng oedd ymwybyddiaeth aelodau'r grwpiau technegol o fodolaeth y Panel Dinasyddion a'i waith; roedd y Grŵp Arwain yn fwy ymwybodol o'r dull cydgynhyrchiol cyffredinol.

3.18 Yr ail ffactor oedd bod rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylid integreiddio cynrychiolaeth dinasyddion yn fwy, yn hytrach na'i chyfyngu i'r Panel Dinasyddion yn unig. Yn benodol, teimlai rhai o aelodau'r grwpiau technegol y dylai pobl sy'n cael gofal a chymorth fod wedi cael eu cynrychioli yn eu grwpiau.

*‘Co-production, in a sense, is everybody around the table talking about the same thing, so in theory there is no reason why you couldn’t have had a service user at those meetings.’*

*‘If there is a Citizen Panel, which there was, then great, but that’s not just to say, “Right we’ve got some citizen representation there”, but ensure citizens including carers and service users are involved in other parts of that co-productive process, including the technical groups.’*

3.19 Cydnabuwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn yr un grŵp mewn ffordd ystyrlon a sensitif. Fodd bynnag, teimlwyd y dylid ystyried gwneud hynny lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

*'If we could identify somebody who has that right level of understanding; the last thing you want to do is put a service user in a room of people who have been talking about it for months; that's quite an intimidating environment.'*

3.20 Mae'n ddiddorol na fynegodd y dinasyddion eu hunain unrhyw ddymuniad i gael eu cynrychioli mewn grwpiau eraill. Fodd bynnag, roeddent am weld mwy o ryngweithio rhwng y grwpiau, a drafodir ymhellach ym mharagraffau 3.68 – 3.71.

*Ymgysylltu ehangach*

3.21 Safbwynt amlwg a fynegwyd gan y tri grŵp oedd y byddai'r dull cydgynhyrchiol wedi cael budd o ymgysylltu ehangach, y tu hwnt i'r rhai a oedd o amgylch y bwrdd fel rhan o'r grwpiau. I'r rhanddeiliaid hynny a fynegodd y safbwynt hwn, roedd angen mynd allan at y bobl, gan gynnwys cymunedau; grwpiau neu rwydweithiau hen a newydd o bobl sy'n cael neu'n darparu gofal a chymorth; a gwasanaethau a mentrau cymdeithasol. Eglurwyd y rhesymeg mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, ystyriwyd bod hyn yn rhan hanfodol o ddull cwbl gydgynhyrchiol. Yn ail, ystyriwyd nad oedd rhai o'r grwpiau hyn wedi'u cynrychioli'n ddigonol o fewn y grwpiau rhanddeiliaid. Yn drydydd, roedd dimensiwn rhanbarthol; gwelwyd ei bod yn symbolaidd bwysig i fynd i ranbarthau gwahanol a chael eich gweld yn gwneud hynny. Yn bedwerydd, dywedwyd bod y sgwrs a geir pan fydd swyddogion yn mynd allan yn wahanol i'r sgwrs a geir pan gaiff rhanddeiliaid eu gwahodd i mewn.

*'If you're looking at co-production more generally, Welsh Government needs to get out to communities and have the discussions in communities… the more discussions that are had in different regions, including in the North, is helpful in terms of actually improving a co-productive approach even further.'*

*'If people are trying to demonstrate they are listening to the stakeholders, sometimes a good way to demonstrate that is going to the stakeholders, rather than everybody coming down to [the Welsh Government office in Cardiff]. It's symbolic isn't it, being out and about, going to all parts of Wales… As a demonstration of a first attempt at trying to be inclusive, I think it was very good, but I think we can be a bit more ambitious and get more people involved.'*

*'It's almost the people who don't make it to the groups you need to hear from… Sitting around a table discussing is not everybody's cup of tea.'*

3.22 Ystyriwyd y gallai'r ymgysylltu ehangach hyn gyflawni sawl swyddogaeth wahanol – yn rhannol byddai'n helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, cael safbwyntiau o'r rheng flaen a rhannu gwybodaeth â chymunedau ac ymarferwyr. Mae hyn yn cysylltu â'r pwynt a godwyd ym mharagraff 3.12 ynghylch y ffaith nad oedd gan yr ochr gyflawni fawr o gynrychiolaeth o fewn y grwpiau rhanddeiliad.

3.23 Gwnaed sawl awgrym ynghylch sut i ymgysylltu'n ehangach. Un awgrym oedd cynnal mwy o ymweliadau â gwasanaethau a mentrau cymdeithasol. Un arall oedd cynnal cyfarfodydd grŵp mewn rhanbarthau gwahanol a gwahodd rhanddeiliaid rhanbarthol, fel ymarferwyr neu grwpiau cymunedol. Un arall oedd trefnu digwyddiadau penodol i randdeiliaid yn y rhanbarthau. Awgrymwyd y gallai'r ymdrechion hyn fanteisio ar y rhwydweithiau rhanddeiliaid presennol ym maes llywodraeth leol a thu hwnt. Awgrymwyd y gallai'r Grŵp Arwain arwain gwaith i drefnu digwyddiadau rhanbarthol hyd yn oed.

3.24 Pwynt arall a gododd mewn perthynas ag ymgysylltu ehangach oedd ei bod yn ymddangos nad oedd fawr o eglurder ynghylch y rôl yr oedd disgwyl i aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol ei chwarae o ran cynrychioli ac ymgynghori ag eraill - boed yn staff o fewn eu sefydliadau, neu'r sefydliadau, y darparwyr neu'r cymunedau yr oeddent yn eu cynrychioli. Nododd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi casglu barn pobl eraill i lywio'r safbwyntiau a fynegwyd ganddynt yn y cyfarfodydd, ond nid oedd pawb wedi gwneud hynny. Dywedodd rhai rhanddeiliaid y gallai sefydliadau drwyddi draw fod wedi cymryd camau mwy rhagweithiol i gymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath.

*'As a learning element I think all of us as organisations perhaps could have done more when we went back to our own organisations to come to meetings with a mandate and be clear about the implications.'*

*'I suspect what happens is, say someone is there from X organisation or Y charity or Z commissioner, they're not going in there armed with evidence from having done their own pre-consultation… Did I go out and speak to lots of people and say, "What are your views on this?", and take a sample? No I didn't, because I was seeing myself there as an individual. But I think it would be healthy where there are groups that represent wider interests, say a national charity, could they not come prepared with some evidence base that they have assembled?'*

### Cydgynhyrchu yn ymarferol

3.25 Gofynnwyd i randdeiliaid roi adborth ar sut roedd y dull cydweithio wedi gweithio'n ymarferol. Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddent yn teimlo bod eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried fel rhan o'r grŵp a pha mor effeithiol oedd eu cyfraniad, yn eu barn hwy, wrth ddatblygu'r fframwaith statudol. Yn gyntaf, mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ynghylch safbwyntiau rhanddeiliaid ar y bartneriaeth gyffredinol rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru. Yna, mae'n cyflwyno canfyddiadau ynghylch a oeddent yn teimlo y gallent rannu eu safbwyntiau, p'un a oeddent yn teimlo bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried, a pha mor effeithiol oedd eu cyfraniad yn eu barn hwy.

*Y bartneriaeth â Llywodraeth Cymru*

3.26 Nododd yr adran 'Defnyddio dull cydgynhyrchiol' fod y rhanddeiliaid yn y tri grŵp yn gadarnhaol iawn ynghylch ymdrech Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dull a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid a dinasyddion yn fwy yn y broses o ddatblygu polisi nag a welwyd fel arfer yn y gorffennol, yn eu barn hwy. O ran y modd roedd y bartneriaeth wedi gweithio'n ymarferol, roedd y safbwyntiau'n fwy amrywiol. Roedd rhai rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn, tra roedd eraill yn teimlo nad oedd y dull gweithredu na'r bartneriaeth wedi arwain at gydgynhyrchu go iawn neu y gellid bod wedi mynd ymhellach.

3.27 Teimlai aelodau o'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrech arbennig i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ddangos diddordeb didwyll a phwrpasol mewn cynnwys pobl a gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Dywedwyd bod y swyddogion yn hawdd mynd atynt ac wedi cadw llinellau cyfathrebu ar agor drwy gydol y broses, felly nid oedd unrhyw beth annisgwyl ar y diwedd.

> *'I felt there was a genuine attempt by Welsh Government colleagues to involve people in the development of it.'*
>
> *'I think taking it forward together was the only way to do it and I genuinely think your colleagues in Welsh Government tried really hard to ensure that happened and succeeded.'*
>
> *'I think we were all taken along on that journey; I don't think anybody felt they weren't a part of that journey.'*

3.28 Roedd penderfynoldeb Llywodraeth Cymru i ddal y bartneriaeth ynghyd nes bod y nod terfynol wedi'i gyflawni, er gwaetha'r heriau a gododd ar hyd y ffordd, wedi creu argraff ar randdeiliaid o'r Grŵp Arwain yn arbennig. Dywedodd yr aelodau hyn fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i ddatblygu ymdeimlad o camaraderie ynghylch nodau cyffredin, gan gynnwys drwy addasu eu dull gweithredu i ennill cefnogaeth pobl a oedd wedi gwrthwynebu'r cynlluniau i ddechrau. Dywedwyd hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio drwy sgyrsiau anodd ac anghytundeb, gan anghofio amdanynt a symud ymlaen.

3.29 Roedd yn sicr bod aelodau'n gwerthfawrogi'r ymrwymiad a ddangoswyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gydberthynas â rhanddeiliaid drwy egluro pethau'n glir, bod yn fwy agored am yr hyn a oedd yn ymarferol a'r goblygiadau o ran adnoddau. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaeth barn ar y graddau y llwyddwyd i wneud hyn.

3.30 Gwelwyd gwahaniaeth barn rhwng y tri grŵp hefyd ynghylch cydbwysedd y bartneriaeth. Fel y dengys y ddau ddyfyniad canlynol, teimlai rhai rhanddeiliaid fod cydbwysedd cyfartal, tra bod eraill wedi tynnu sylw at welliannau y gellid eu gwneud yn hyn o beth.

> *'It felt inclusive. It did feel as though there was a good degree of co-production, and all the relevant stakeholders and partners there were given an equal voice.'*
>
> *'They [Welsh Government] demonstrated true leadership in genuinely wanting to hear the views, but I guess there was a little bit of hesitation about having to control what was said, by who, and when.'*

3.31 Roedd yn ymddangos bod cysylltiad rhwng safbwyntiau rhanddeiliaid ar gydbwysedd y bartneriaeth â'u safbwyntiau ar natur y dasg a osodwyd iddynt ac ar ba gam o'r broses y cawsant eu cynnwys. Un safbwynt oedd bod y broses datblygu polisi wedi dechrau'n rhy fewnol. Er enghraifft, teimlai'r rhanddeiliad canlynol y dylent fod wedi cael eu cynnwys ar gam cynharach yn y broses ddrafftio er mwyn ei ystyried yn enghraifft wirioneddol o gydgynhyrchu.

> *'I think in co-producing something, it's about co-producing the idea of what it is you need to produce in the first place and then working towards that. There is a difference between that and co-producing something which has been decided is needed.'*

3.32 Ym marn y rhanddeiliad hwn, roedd y ffaith y cafodd y drafftiau cychwynnol eu paratoi'n fewnol yn golygu mai dim ond addasiadau y gallai rhanddeiliaid eu gwneud yn hytrach na chyflwyno unrhyw syniadau hollol newydd. Mewn enghraifft arall, teimlai'r rhanddeiliad canlynol y byddai dechrau'n ehangach ac yna ddefnyddio'r grwpiau technegol i hidlo a mireinio syniadau, cyn ymgynghori ar y cynigion unwaith eto, wedi bod yn broses fwy agored.

*'In one sense, it's almost like a funnel into the technical groups from a wider consultative process, then it's a funnel out after when they go out for consultation on some proposals; so it's a refining process, whereas at the moment it feels like it starts quite internal and then goes out.'*

3.33 Codwyd yr un pwynt gan aelod o'r Panel Dinasyddion hefyd. Credai'r aelod hwn y cafodd y panel ei gynnwys yn rhy hwyr yn y broses i wneud gwahaniaeth ystyrlon i'r hyn a ddatblygwyd. Awgrymwyd y gellid bod wedi dwyn y panel ynghyd cyn gynted ag y penderfynwyd y byddai Deddf newydd yn cael ei chyflwyno.

3.34 Safbwynt arall, fodd bynnag, oedd y cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys ar gam priodol a bod cael drafftiau cychwynnol ymlaen llaw wedi helpu yn hytrach na llesteirio'r dull cydgynhyrchiol. Ym marn y rhanddeiliaid canlynol, cawsant eu cynnwys yn ddigon cynnar yn y broses i lywio'r cynnyrch, mewn cyferbyniad â dulliau blaenorol lle byddai heriau'n codi ar y diwedd pan oedd y cynnyrch ar gam mwy datblygedig.

*'It was incredibly difficult to do those initial drafts. What we got was a genuine, "Here's the first start of something", which is always the most difficult thing to do, "Don't be afraid to take it apart, build on it, amend it."'*

*'Workshop sessions were developed that drew in local authorities, the third sector, all stakeholders really, as the guidance became clearer. At what point do you do that? I suppose, you need to have a fairly clear view on the guidance and shape of the legislation before you start drawing a lot of people together.'*

3.35 Yn achos y Panel Dinasyddion, roedd safbwyntiau ar gydbwysedd y bartneriaeth wedi'u cysylltu hefyd â'r modd y cafodd yr agenda eu gosod. Nodwyd y dylid cydweithio i osod yr agenda fel rhan o ddull cydgynhyrchiol, ond amrywiol oedd safbwyntiau ynghylch i ba raddau y gwnaed hyn. Yn ôl un safbwynt, dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gosod yr agenda, felly nid oedd gan y panel unrhyw ryddid o ran beth i'w ystyried a bod hyn wedi cyfrannu at ymdeimlad bod y dinasyddion yn gwasanaethu Llywodraeth Cymru. Yn ôl safbwynt arall, daeth y panel yn fwy

grymus dros amser ac, yn ddiweddarach, roedd wedi gallu dweud beth yr hoffai ei ystyried. Argymhellwyd y dylid cynnal cyfarfod ar y dechrau i benderfynu sut i gydweithio ac y dylai'r panel helpu i benderfynu beth y dylid ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

3.36 Cafwyd adborth gan y Panel Dinasyddion hefyd ar y graddau y teimlwyd ei fod yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel grŵp. Unwaith eto, cafwyd safbwyntiau amrywiol. Yn fwy penodol, er bod rhai dinasyddion yn fodlon bod cyfraniad y panel yn cael ei werthfawrogi a'i ddefnyddio, nid oedd pawb. Ar y naill law, roedd diddordeb Gweinidogion yn y grŵp wedi gwneud iddynt deimlo'n gysylltiedig, fel pe bai eu safbwyntiau'n cael eu defnyddio a'u hystyried. Ategwyd hyn gan y gwahoddiad i annerch cynhadledd gwasanaethau cymdeithasol. Ar y llaw arall, roedd y sgwrs ddwyffordd gyfyngedig, yn ôl y sôn, yn golygu nad oedd y panel yn gwybod p'un a oedd eu safbwyntiau yn cyfrannu na sut. Trafodir y pwynt hwn ymhellach ym mharagraffau 3.49 – 3.51. Teimlwyd hefyd fod yn rhaid i aelodau'r panel fod yn ofalus ynghylch beth roeddent yn ei ddweud ac wrth bwy a'u bod felly'n cael eu cadw ar wahân i'r broses gydgynhyrchu ehangach.

3.37 Yn ogystal, er bod dinasyddion yn cymryd rhan yn wirfoddol am eu bod yn awyddus i fynd i'r afael â'r materion hyn, nodwyd eu bod yn teimlo nad oedd eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi cymaint am nad oeddent yn cael eu talu am eu hamser. Roedd safbwyntiau ar drefniadau bwyd a llety yn gymysg.

*Cyfle i rannu safbwyntiau*

3.38 Roedd rhanddeiliaid yn y tri grŵp yn gadarnhaol am y cyfleoedd a'r anogaeth a gawsant i rannu eu safbwyntiau. Dywedodd aelodau o'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol yn gyson eu bod wedi cael cyfle i leisio barn yn ystod cyfarfodydd, a thrafod a phwyso a mesur safbwyntiau pawb. Ystyriwyd bod ansawdd y gwaith hwyluso yn allweddol yn hyn o beth. Cyfeiriodd rhai o aelodau'r grwpiau technegol at amgylchedd agored neu anogaeth i e-bostio syniadau pellach neu anfon dogfennau fel adroddiadau i'w rhannu â'r grŵp, os oeddent yn dymuno, a oedd yn cael eu hystyried yn eu barn hwy. I aelodau'r Grŵp Arwain, roedd y sgyrsiau rheolaidd rhyngddynt hwy a swyddogion Llywodraeth Cymru y tu allan i gyfarfodydd yn gyfle arall i ddeall a chodi materion.

> *'What I think [Welsh Government official] did really well… [he/she] brought people in; [he/she] would say, "Any issues from your perspective?" … So there*

*was an opportunity to hear what people felt as well as following the timeline and programme schedule.'*

*'You felt you had the opportunity to contribute both live within a meeting, either in group work or whatever, but also by email or reflecting on what you heard, so that was good.'*

*'I suppose the quality of the facilitation was key... I think they were very good at making sure everybody who wanted to say something was given that opportunity. They also made sure, if something was raised, people had the opportunity to discuss that… They also tried to get people to give examples or illustrations of their points, so actually it didn't matter where you worked or what level of knowledge you had, you could actually understand the point that was being made.'*

3.39 Un pwynt a ddaeth i'r amlwg mewn adroddiadau oedd pwysigrwydd sicrhau bod aelodau grŵp mwy tawel yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau. Teimlwyd bod y pwynt hwn wedi cael ei reoli'n eithaf da ar y cyfan, ond dywedodd rhai rhanddeiliaid y gellid bod wedi gwneud mwy yn eu grwpiau hwy. Roedd y technegau a argymhellwyd gan randdeiliaid yn cynnwys mynd o amgylch yr ystafell gan ofyn i bob aelod o'r grŵp am ei safbwyntiau; neilltuo pum munud i aelodau siarad; a/neu ofyn am farn aelodau tawelach ar wahân, y tu allan i'r grŵp cyfan. Dywedwyd hefyd fod amrywiaeth o fewn grwpiau yn bwysig er mwyn sicrhau nad oedd sectorau penodol yn teimlo eu bod yn cael eu bychanu ac nad oedd safbwyntiau croes yn cael eu boddi.

3.40 O safbwynt y Panel Dinasyddion yn benodol, dywedodd aelodau fod perthynas gadarnhaol a chefnogol wedi datblygu o fewn y grŵp a oedd wedi'u helpu i deimlo'n gyfforddus i rannu eu barn. Yn benodol, dywedwyd bod dod ynghyd yn anffurfiol y noson cyn cyfarfodydd wedi helpu i ddatblygu'r berthynas hon. O safbwynt pwyntiau penodol a oedd wedi arwain at amgylchedd cadarnhaol i leisio barn, dywedodd aelodau'r panel eu bod yn gallu dweud yr hyn a fynnent heb deimlo bod ateb cywir neu anghywir. Dywedwyd hefyd eu bod wedi cael amser i siarad heb unrhyw un yn torri ar eu traws, a chyfeiriwyd at sensitifrwydd ynghylch y ffaith bod aelodau'n rhannu profiadau personol, anodd ac, weithiau, annifyr. Roedd hefyd yn bwysig bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cymorth yr oedd ei angen ar bob aelod i sicrhau ei fod yn gallu cymryd rhan yn llawn. Cafwyd safbwyntiau amrywiol ar y graddau y llwyddwyd i gyflawni hyn ac fe'u trafodir ar wahân ym mharagraffau 3.64 – 3.66.

*Ystyried safbwyntiau*

3.41 Roedd cael cyfle i rannu safbwyntiau yn bwysig i randdeiliaid ond roedd hefyd yn bwysig iddynt deimlo bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried. Ar y cyfan, dywedodd rhanddeiliaid yn y Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol fod eu safbwyntiau i gyd wedi cael gwrandawiad ac wedi cael eu parchu, a bod ymdrech ar y cyd i ddeall y materion a godwyd ganddynt er mwyn llywio gwaith i ddatblygu'r drafftiau ymhellach. Wrth gwrs, roedd anghytundeb ynghylch rhai elfennau ac ni chafodd pob safbwynt ei gynnwys yn y polisi ond, ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn derbyn bod cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei ddatblygu. Yn hytrach, y ffactor hanfodol iddynt hwy oedd tystiolaeth bod eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried a'u harchwilio'n fanylach.

> *'There was active listening; you never felt as if people's voices weren't welcomed; there was no hint of that at all.'*

3.42 Ar gyfer y Panel Dinasyddion, adroddiadau a luniwyd gan yr hwylusydd annibynnol ar ôl pob cyfarfod oedd y prif ddull a ddefnyddiwyd i rannu eu safbwyntiau y tu allan i'r panel (gweler paragraff 1.11 am ragor o fanylion). Dywedwyd bod y pwyntiau a godwyd yn ystod cyfarfodydd wedi'u cofnodi'n gywir yn yr adroddiadau. Dywedodd un aelod o'r panel ei fod yn gwybod eu bod wedi gwrando arno oherwydd yr hyn a gafodd ei gynnwys yn yr adroddiadau. Fodd bynnag, cafwyd safbwyntiau gwahanol ar fanylder yr adroddiadau. Un safbwynt oedd bod yr adroddiadau yn rhy gyfyng oherwydd, er eu bod yn cofnodi'r pwyntiau a godwyd, nid oeddent yn cynnwys y profiadau go iawn a oedd yn sail iddynt. Dywedwyd mai dyma'r elfen a oedd yn gosod lleisiau dinasyddion ar wahân ac yn rhoi gwerth iddynt. Safbwynt cyferbyniol oedd bod yr adroddiadau'n gweithio'n dda am eu bod yn mynd yn syth i'r pwynt, gan roi sylw i'r hyn a ddywedodd yr unigolyn a sut y gellid cyflawni pethau yn ei farn ef. O'r safbwynt hwn, roedd y llythyrau a'r ffilmiau a gyflwynwyd ar y cyd â'r adroddiadau yn ffyrdd gwell o gyfleu'r stori y tu ôl i safbwyntiau i swyddogion a Gweinidogion na phe bai adroddiadau ysgrifenedig hirrach wedi cael eu cyflwyno. O ran y ffilmiau, dywedwyd bod gweld rhywun yn siarad am yr hyn a oedd wedi digwydd iddynt yn fwy grymus na'r gair ysgrifenedig.

3.43 Amrywiai safbwyntiau'r Panel Dinasyddion hefyd o ran y graddau y defnyddiwyd yr adroddiadau. Roedd rhai aelodau'n hyderus bod swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion wedi ystyried yr adroddiadau, ar y cyd â safbwyntiau'r holl grwpiau eraill. Teimlai aelodau eraill na allent fod yn hyderus bod yr adroddiadau wedi'u

defnyddio am eu bod yn teimlo na chawsant ddigon o adborth. Trafodir y pwynt hwn ar adborth ymhellach ym mharagraff 3.50 isod.

3.44 Roedd presenoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion yn rhai o gyfarfodydd y panel yn gyfle arall i ystyried safbwyntiau dinasyddion. Roedd aelodau'r panel yn fodlon ar y ffordd roedd swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd wedi mynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd, wedi gwrando ar eu safbwyntiau. Dywedwyd hefyd fod y Gweinidogion a oedd yn bresennol wedi gwrando ac ymgysylltu'n llawn. Mae'n werth nodi bod y panel yn teimlo ei bod wedi bod yn ddefnyddiol cael cyfle i holi siaradwyr a ddaeth i annerch cyfarfodydd penodol ar ôl eu cyflwyniadau, ond dywedwyd y gallai mwy o siaradwyr fod wedi aros i wrando ar drafodaeth y panel. Byddai hyn wedi dangos i aelodau'r panel bod eu safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedwyd bod y siaradwyr a wnaeth aros wedi cael eu synnu gan y profiadau a rannwyd.

*Effeithiolrwydd cyfraniad rhanddeiliaid*

3.45 Caiff safbwyntiau pob grŵp ar effeithiolrwydd ei gyfraniad eu trafod ar wahân oherwydd y bwriad oedd y byddai eu cyfraniadau'n wahanol, ac adlewyrchwyd hyn yn y data. Roedd consensws ymhlith aelodau'r Grŵp Arwain fod eu cyfraniad wedi effeithio ar y broses a'r canlyniad. Roeddent yn teimlo bod drafftiau wedi cael eu haddasu mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd ganddynt a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella. Roeddent yn derbyn na fyddai pob safbwynt a fynegwyd yn cael ei fabwysiadu. Fodd bynnag, dywedwyd bod ymdrechion da i gydnabod eu safbwyntiau ac ymateb iddynt, a dywedwyd eu bod wedi cael adborth agored a gonest. Lle nad oedd modd gwneud newidiadau, mae'n debyg y rhoddwyd rhesymau dros hynny, a gwerthfawrogwyd hyn. Teimlwyd hefyd eu bod wedi cael gwybod yn glir pa elfennau y gallent ac na allent ddylanwadu arnynt.

3.46 Yn fwy penodol, teimlai aelodau'r Grŵp Arwain fod eu cyfraniad wedi arwain at ddeddfwriaeth well. Roeddent yn teimlo hefyd eu bod wedi helpu i hyrwyddo'r newid polisi yn ehangach yng Nghymru drwy eu swyddi allweddol a'u dylanwad o fewn eu sectorau. Mae'n debyg y cafodd un o argymhellion y Grŵp Arwain i ddatblygu strategaeth gyfathrebu ei dderbyn. Mae'n debyg y cafodd y strategaeth gyfathrebu ei datblygu gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid a'i defnyddio mewn gwahanol fforymau.

3.47 Pwysleisiodd aelodau'r grwpiau technegol hefyd pa mor bwysig oedd hi i deimlo bod o leiaf rai o'u safbwyntiau yn cael eu derbyn a'u defnyddio. Roeddent yn gadarnhaol

ar y cyfan am effeithiolrwydd eu cyfraniad. Nodwyd yn gyffredin ganddynt fod eu pwyntiau wedi cael eu derbyn, eu hystyried yn fanylach a'u defnyddio i wella'r drafftiau.

*'It didn't feel like a tick box exercise; it felt like there was a purpose to it…What was said in the group was reflected in the work on the Act that resulted, where the information changed in line with what people said.'*

*'It was gratifying to know that, in terms of when the Bill finally emerged, there were clearly some things in there that had been talked about in our groups. In that sense we got the impression that we were influential, and that is obviously helpful in terms of the investment of time.'*

3.48 Er y dywedodd rhai o aelodau'r grwpiau technegol nad oedd eu pwyntiau wedi cael cymaint o effaith ag yr hoffent, roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu hystyried o leiaf. Mae'n werth nodi, mewn un achos, y teimlwyd bod yr amserlen gyfyngedig iawn wedi cyfyngu ar gyfraniad y grŵp. Efallai mai dim ond ar un o'r grwpiau (neu nifer fach o grwpiau) roedd y mater hwn wedi effeithio gan na chafodd y mater ei godi gan eraill. Mae'n werth crybwyll hefyd i rai o aelodau'r grwpiau technegol – yn wahanol i'r Grŵp Arwain – ddweud y byddent wedi gwerthfawrogi cael adborth mwy manwl ar y pwyntiau a wnaed ganddynt, yr hyn a wnaed o ganlyniad iddynt, a pham na chafodd pwyntiau penodol eu derbyn a'u datblygu. Mae'n debyg i hyn gael ei wneud mewn ffordd fwy systematig gydag ymgynghoriadau na chyda'r grwpiau ac y gellid bod wedi defnyddio hyn fel cofnod cyhoeddus o effaith y grwpiau.

3.49 Er y cafodd y Panel Dinasyddion hefyd ei sefydlu er mwyn ymgysylltu ar lefel arwain, roedd safbwyntiau'r aelodau ar effeithiolrwydd eu cyfraniad yn wahanol iawn i'r Grŵp Arwain. Teimlai rhai o aelodau'r panel fod eu cyfraniad wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth o ran sicrhau bod y polisi'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion. Teimlai eraill y byddai fformat y Ddeddf wedi bod yn debyg p'un a oedd Panel Dinasyddion neu beidio. Pwysleisiwyd mai'r unig reswm roeddent yno oedd er mwyn gwneud gwahaniaeth, ond teimlai rhai o aelodau'r panel eu bod yn cyflawni disgwyliadau o ran y broses ac na ddefnyddiwyd eu cyfraniad yn y ffordd orau bosibl. Un safbwynt oedd y gallai'r Panel Dinasyddion fod wedi gwneud mwy o gyfraniad pe bai wedi cael ei gynnwys yn gynt yn y broses, gan fod y Ddeddf eisoes wedi'i hysgrifennu i raddau erbyn i'r panel gael ei gynnwys.

3.50 Ar y cyfan, ni allai aelodau'r Panel Dinasyddion feddwl am unrhyw gyfraniadau gwirioneddol yr oeddent wedi'u gwneud i'r fframwaith statudol, ac ymddengys bod

hyn yn rhannol gysylltiedig ag adborth cyfyngedig. Dywedwyd y diolchwyd iddynt yn aml am eu cyfraniad a'u bod wedi cael adborth bod yr adroddiadau wedi cael eu darllen a'u bod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'n debyg nad oeddent wedi cael adborth ar enghreifftiau penodol o'r modd roedd eu cyfraniadau wedi newid syniadau neu wedi diwygio'r polisi, er bod y grŵp wedi gofyn am hyn o bryd i'w gilydd. Derbyniwyd mai rôl y panel oedd rhai barn ochr yn ochr â grwpiau rhanddeiliaid eraill, nid gwneud penderfyniadau, a'i bod yn bur debyg bod pwyntiau'r aelodau wedi cael eu hystyried hyd yn oed os nad oeddent wedi arwain at newidiadau i'r polisi bob amser. Fodd bynnag, nododd rhai o aelodau'r panel y gellid bod wedi cyfathrebu mwy â hwy ynglŷn â'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud, pam eu bod yn cael eu gwneud, a sut roedd eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried. Dywedwyd bod adborth yn hollbwysig er mwyn datblygu sgwrs ddwyffordd, a fyddai wedi gwneud i'r prosiect deimlo fel llawer mwy o brosiect a rennir. Un awgrym oedd y gallai swyddogion polisi fod wedi dod nôl ar ôl cael yr adroddiadau er mwyn trafod y pwyntiau a wnaed gan y panel, neu anfon adborth ysgrifenedig.

3.51 Yn ôl rhai o aelodau'r panel a rhanddeiliaid eraill, mae'n debyg mai un cyfraniad roedd y Panel Dinasyddion wedi'i wneud oedd hyrwyddo'r syniad o gynnwys Paneli Dinasyddion yn fwy cyffredinol. Dywedwyd bod y syniad o gynnwys Paneli Dinasyddion mewn ymdrechion i roi'r Ddeddf ar waith a gwella iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn lleol neu'n rhanbarthol yng Nghymru wedi ennill tir o ganlyniad i rôl y Panel Dinasyddion yn y broses hon.

**Y broses a'r agweddau ymarferol**

3.52 Holwyd rhanddeiliaid am eu safbwyntiau ar y dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd, ac roedd eu hymatebion yn cynnwys adborth ar y broses a'r agweddau ymarferol. Ar y cyfan, teimlai'r grwpiau fod y broses wedi'i rheoli'n dda, ond roedd rhai cafeatau. Cafodd y broses ei disgrifio'n gyffredinol fel proses heriol a llafurus, ond hefyd fel proses gadarnhaol a chydweithredol. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau themâu penodol a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â'r broses.

*Lleoliad cyfarfodydd*

3.53 Cafwyd sylwadau gan sawl rhanddeiliad ar leoliad y cyfarfodydd. Teimlai rhai rhanddeiliaid fod gormod o gyfarfodydd wedi'u cynnal yng Nghaerdydd ac y dylid eu cynnal am yn ail mewn rhanbarthau gwahanol, a hynny am resymau symbolaidd ac oherwydd yr amser teithio a'r goblygiadau cost i bobl sy'n byw mewn ardaloedd

eraill. Fodd bynnag, safbwynt arall a fynegwyd gan un grŵp a gynhaliodd gyfarfod yn y gogledd oedd bod gwneud hynny wedi teimlo'n symbolaidd ac yn aneffeithlon gan fod y mwyafrif llethol o aelodau'r grŵp yn byw yn y de. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod nad oedd ateb syml i'r her hon. Gwnaed rhai awgrymiadau i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau fideo-gynadledda ac ar-lein yn y dyfodol, ond cydnabuwyd cyfyngiadau'r dulliau hyn hefyd.

3.54 Roedd y Panel Dinasyddion yn ymddangos fel pe bai'n fodlon bod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal mewn lleoliadau gwahanol er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ranbarthol ei aelodau.

*Nifer y cyfarfodydd a'r amserlen*

3.55 Roedd y Grŵp Arwain a'r Panel Dinasyddion wedi cael eu cynnwys drwy gydol y broses (gweler adran 1 am ragor o fanylion). Ni fynegwyd safbwyntiau cryf ganddynt ar nifer y cyfarfodydd na'r amserlen. Safbwynt y Grŵp Arwain oedd bod y broses wedi dechrau'n ddigon cynnar ond bod maint y dasg, serch hynny, wedi ei gwneud hi'n anodd ei chwblhau mewn pryd. Dywedwyd y llwyddwyd i gwblhau'r broses drwy ddyblu ymdrechion ar y camau olaf. O ran y Panel Dinasyddion, nodwyd sylw ym mharagraff 3.33 y gallai'r panel fod wedi gwneud mwy o gyfraniad pe bai wedi cael ei gynnwys yn gynt yn y broses.

3.56 Cafodd y grwpiau technegol eu cynnwys ar adegau penodol yn y broses er mwyn cwblhau tasgau diffiniedig (gweler adran 1 am ragor o fanylion). Roedd safbwyntiau aelodau'r grwpiau technegol ar y thema hon yn amrywio'n sylweddol, a allai adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol rhwng y grwpiau o ran pryd a sut y cawsant eu sefydlu. Roedd y sylwadau cadarnhaol a gafwyd yn cynnwys bod tri neu bedwar cyfarfod wedi rhoi digon o amser i fynd i'r afael â'r dasg; bod yr amser rhwng cyfarfodydd wedi rhoi digon o gyfle i fyfyrio ar bynciau ac ymchwilio iddynt yn fanylach; ac nad oedd y cyfarfodydd eu hunain yn rhy uchelgeisiol. Safbwynt cyferbyniol oedd bod y ddau fis a roddwyd i un grŵp gwblhau ei dasg cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn llawer rhy fyr. Dywedwyd bod hyn wedi cyfyngu ar y cyfle i ystyried meysydd pwysig yn llawn; wedi effeithio ar bwy oedd yn gallu cymryd rhan ac ar allu aelodau'r grŵp i ymgynghori â chydweithwyr ac eraill; ac, yn y pen draw, wedi effeithio ar ansawdd y canlyniad.

*Trefniadau hwyluso a fformat y Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol*

3.57 O ran y Grŵp Arwain, yr adborth allweddol a gafwyd ar fformat y cyfarfodydd oedd eu bod yn tueddu i ddilyn agenda eitem fesul eitem draddodiadol. Er iddi gael ei

chydnabod bod angen treulio amser ar yr agweddau ffurfiol, byddai rhai aelodau wedi hoffi gweld cymysgedd o sesiynau mwy rhyngweithiol a llai strwythuredig hefyd – naill ai drwy gynnal cyfarfodydd am yn ail neu rannu cyfarfodydd yn ddwy ran. Yn fwy penodol, awgrymwyd y dylid rhoi mwy o amser i drafod pwnc yn fanwl, meddwl am syniadau, trafod a datrys problemau. Gellid bod wedi gofyn i aelodau wirfoddoli i baratoi rhywbeth ymlaen llaw, gan eu gosod hwy yn hytrach na swyddogion polisi wrth y llyw ar gyfer y gweithgareddau hynny.

3.58 Adborth arall a gafwyd gan y Grŵp Arwain oedd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys rhywfaint o amser myfyrio yn y broses – er enghraifft, drwy ailedrych ar rai pwyntiau mewn sesiynau dilynol. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai cyfyngiadau amser fod wedi atal hyn.

3.59 Y pwynt terfynol a gododd o adborth y Grŵp Arwain oedd ei bod yn bosibl bod rhai trafodaethau wedi'u gorwneud. Dywedwyd bod hyn yn arbennig o wir yn achos rhai pethau dymunol a drafodwyd er bod holl aelodau'r grŵp wedi cydnabod eu bod yn afrealistig.

3.60 Roedd hi'n ymddangos bod fformat y cyfarfodydd wedi amrywio rhywfaint rhwng pob un o'r grwpiau technegol. Ymhlith pethau eraill, roeddent yn cynnwys cyflwyniad gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru neu siaradwr arall, ac yna gymysgedd o drafodaethau grŵp cyfan a/neu grwpiau bach. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y fformat ar y cyfan. Teimlwyd bod y cyflwyniadau yn ffordd dda o roi ffocws i bawb ar y dechrau ac ystyriwyd eu bod yn hynod o ddefnyddiol os oedd y pwnc yn anghyfarwydd i unrhyw un. Nodwyd bod trafodaethau grŵp bach yn ffordd dda o annog aelodau tawel i rannu eu barn ac ysgogi safbwyntiau mwy amrywiol.

3.61 Dywedodd rhai o aelodau'r grwpiau technegol mai eu blaenoriaeth oedd cyflawni cymaint â phosibl o fewn yr amser oedd ar gael, a chafwyd adborth ganddynt ar weithgareddau nad oedd wedi gwneud y defnydd gorau o'u hamser yn eu barn hwy. Un enghraifft oedd sesiynau a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar rannu gwybodaeth; awgrymwyd y gellid cyfyngu ymdrechion i rannu gwybodaeth i gyflwyniad er mwyn rhoi cyd-destun ar gyfer y drafodaeth. Enghraifft arall oedd amser a dreuliwyd yn cyflwyno ac yn egluro safbwyntiau gwahanol yr aelodau yn ystod pob sesiwn cyn iddynt gael eu trafod a'u dadlau; awgrymwyd y gellid gofyn iddynt lunio datganiadau sefyllfa ymlaen llaw yn lle hynny. Dywedodd un rhanddeiliad fod ei grŵp wedi cael gwaith cartref rhwng sesiynau i gyflwyno

ymatebion ysgrifenedig ar fater. Er bod hyn yn llafurus, teimlai'r rhanddeiliad ei fod yn ffordd ddefnyddiol o roi ffocws i syniadau yn barod ar gyfer y cyfarfodydd.

3.62 O safbwynt cyfathrebu o fewn y Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol, dywedwyd bod prosesau wedi gweithio'n dda ar y cyfan. Dywedwyd bod rhanddeiliaid wedi cael gwybodaeth glir am yr hyn y byddent yn ei ystyried ym mhob cyfarfod, unrhyw wybodaeth gefndirol yr oedd ei hangen arnynt, a chanllawiau ar yr hyn y dylent ei baratoi. Ar ôl cyfarfodydd, dywedwyd eu bod wedi cael nodiadau ysgrifenedig a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Un pwynt ehangach a gododd o adborth y grwpiau technegol oedd y byddent wedi gwerthfawrogi mwy o gyfathrebu ynghylch cyhoeddi drafftiau ar y wefan.

*Trefniadau hwyluso a fformat y Panel Dinasyddion*

3.63 Roedd safbwyntiau cyffredinol y Panel Dinasyddion ar y trefniadau hwyluso yn amrywio. Dywedodd rhai aelodau fod yr hwylusydd annibynnol wedi dwyn popeth ynghyd a'i fod yn haeddu clod am sicrhau bod popeth yn gweithio mor dda. O'u safbwynt hwy, roedd y broses wedi gwella pan ymunodd yr hwylusydd annibynnol. Dywedwyd hefyd y cafwyd llawer o gymorth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, safbwynt cyferbyniol a fynegwyd gan y Panel Dinasyddion oedd y gellid bod wedi gwella'r trefniadau hwyluso. Yn sail i'r farn hon roedd ymdeimlad y gallai'r hwylusydd fod wedi meddu ar ddealltwriaeth ddyfnach o'r polisi a bod yn fwy sensitif i sefyllfaoedd aelodau'r panel.

3.64 O ran elfennau penodol y fformat, roedd yn hollbwysig sicrhau bod holl aelodau'r Panel Dinasyddion yn gallu mynychu cyfarfodydd a chymryd rhan mor lawn â phosibl. Yn benodol, roedd yn bwysig bod aelodau'n cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Mae'n debyg y gofynnwyd i'r aelodau ar y dechrau a oedd angen unrhyw gymorth arnynt i fynychu cyfarfodydd. Dywedodd rhai aelodau – gan gynnwys rhai o'r aelodau a gafodd gymorth – fod y cymorth wedi gweithio'n dda. Roeddent yn teimlo y gallai aelodau godi problemau ar unrhyw adeg ac y byddai'r problemau hyn yn cael eu hystyried. Roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod cynorthwywyr personol ar gael, a eisteddai gyda rhai aelodau i egluro'r pwnc a'r drafodaeth ar lefel addas, gan fod hynny'n sicrhau bod pawb yn gallu deall y drafodaeth a lleisio barn. Safbwynt arall oedd nad yw pobl bob amser yn gwybod pa gymorth sydd ei angen arnynt ar y dechrau ac y gellid bod wedi holi'n benodol am anghenion drwy gydol y broses. O'r safbwynt hwn, teimlwyd y gallai rhai o'r aelodau, na chawsant gymorth personol yn ystod cyfarfodydd, fod wedi cael budd

ohono. Mae'n debyg mai'r canlyniad oedd nad oedd holl aelodau'r panel wedi gallu cymryd rhan yn gyfartal a bod y grŵp yn ei gyfanrwydd wedi colli cyfle i glywed yr hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud o ganlyniad i hynny.

3.65 Dywedodd aelodau'r panel a gafodd gymorth gan gynorthwyydd personol yn ystod cyfarfodydd fod hynny wedi bod yn hollbwysig er mwyn eu helpu i ddeall y drafodaeth. O safbwynt camau eraill i gefnogi dealltwriaeth yn ystod cyfarfodydd, argymhellodd rhai aelodau y dylid gwneud mwy o ysgrifennu a llai o siarad a gwneud mwy o waith mewn grwpiau bach. Dywedwyd mai trafodaethau grŵp cyfan oedd y rhai mwyaf anodd eu deall.

3.66 Canmolwyd y ffaith bod yr holl ddogfennau briffio ac adroddiadau ar gael mewn fformatau safonol a hawdd eu darllen. Un pwynt a gododd o'r adborth oedd y gallai aelodau'r panel, fel dinasyddion, fod wedi cael budd o hyd o gymorth ychwanegol i ddeall pwyntiau allweddol. Un awgrym oedd cael cyflwyniad undydd i'r Ddeddf ar y dechrau. Awgrym arall oedd y dylid rhoi cyfle i bob aelod ofyn cwestiynau'n unigol er mwyn cael eglurhad cyn cyfarfodydd, fel nad oedd amser yn cael ei dreulio'n gwneud hyn yn ystod cyfarfodydd.

3.67 O safbwynt y fformatau amgen a ddefnyddiwyd, roedd rhai aelodau o'r farn bod y ffilmiau yn ffordd ardderchog o adrodd eu stori. Yn olaf, roedd y sesiynau Skype a drefnwyd i drafod yr adroddiadau'n anffurfiol rhwng sesiynau yn boblogaidd ymhlith y rhai a gymerodd ran ynddynt. Un cyfyngiad oedd nad oedd yr holl aelodau'n gallu cymryd rhan. Un awgrym a wnaed oedd y gellid defnyddio sesiynau Skype hefyd i sicrhau bod pobl yn deall y cefndir a'r dogfennau briffio ar gyfer y pwnc nesaf cyn y cyfarfodydd ffurfiol, ac ateb unrhyw gwestiynau am eglurhad.

*Cyswllt cyfyngedig rhwng grwpiau*

3.68 Un thema amlwg oedd nad oedd digon o gyswllt rhwng y grwpiau. Sefydlwyd y Grŵp Arwain, y Panel Dinasyddion a'r Fforwm Partneriaeth er mwyn ymgysylltu ar lefel arwain a strategol. Fodd bynnag, dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r Panel Dinasyddion na ddaethant i gysylltiad â'i gilydd tan tua diwedd y broses. Dywedodd aelodau'r Panel Dinasyddion, er eu bod yn ymwybodol o fodolaeth y grwpiau eraill, nad oeddent wedi clywed fawr ddim am eu gwaith, er iddynt ofyn am wybodaeth weithiau. Cwestiynwyd hefyd a oedd y grwpiau eraill yn cael clywed am eu gwaith hwy neu'n gallu gweld eu hadroddiadau.

3.69 Teimlai aelodau'r Grŵp Arwain a'r Panel Dinasyddion bod dod ynghyd o amgylch y bwrdd gyda'r bwriad o gydgynhyrchu yn fuddiol. Roedd y buddiannau posibl yn

cynnwys cael cyfleoedd i gyfnewid syniadau, trafod heriau ar y cyd, datblygu dealltwriaeth gyffredin o faterion o safbwyntiau ei gilydd, yn ogystal â phennu nodau cyffredin. Mae'n sicr bod aelodau wedi gwerthfawrogi'r sesiwn pan ddaethant ynghyd tuag at y diwedd. Er enghraifft, dywedodd un o aelodau'r Panel Dinasyddion nad oedd yn teimlo bod cyfraniad dinasyddion i'r drafodaeth yn cael ei werthfawrogi tan hynny.

3.70 Cafwyd sawl awgrym gan aelodau'r Grŵp Arwain a'r Panel Dinasyddion ynghylch sut y gallai trefniadau cyswllt rhwng y tri grŵp sy'n rhan o'r gynghrair arwain weithio yn ymarferol. Un awgrym oedd y dylid rhannu cofnodion neu adroddiadau o gyfarfodydd â'r grwpiau eraill. Awgrym arall oedd y gallai pob grŵp anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y grwpiau eraill, er mwyn adrodd i'r grwpiau hynny ac yna adrodd nôl i'w grŵp eu hunain. Er y cydnabuwyd bod angen i'r grwpiau gael rhai cyfarfodydd ar wahân, teimlwyd y dylent fod wedi dod ynghyd yn gynt ac yn rheolaidd drwy gydol y broses. Un fformat a awgrymwyd oedd cymysgedd o gyfarfodydd ar wahân a chyfarfodydd ar y cyd; un arall oedd y gallai'r grwpiau gynnal cyfarfodydd yn yr un lleoliad ar yr un diwrnod, lle gallent ddod ynghyd ar ddiwedd y dydd.

*‘It would have been helpful for each of the three groups (Leadership Group, Citizen Panel, Partnership Forum) to have the minutes of each other’s groups, so that, although they all came from different perspectives, we could have started earlier in having a collective view. When the three groups came together there was commonality, which could have been done sooner. It felt separated out unnecessarily… It felt very precious – the Citizen Panel was only for Welsh Government officials.’*

*‘If the groups met separately, but then at the end of the day came together so you get that common purpose, I think that could have been done sooner.’*

*‘The Citizen Panel worked solo for most of the time. It would have been nice to actually work with some of the other panels as well and exchange ideas.’*

3.71 O safbwynt aelodau'r grwpiau technegol, nodwyd ym mharagraffau 3.17 – 3.20 eu bod yn teimlo y gellid bod wedi cynnwys dinasyddion i raddau mwy yn eu gweithgareddau. Nid oedd rhai aelodau wedi clywed am y Panel Dinasyddion ac yn eu barn hwy, roedd yn drueni nad oeddent wedi cael mwy o gyswllt. Dywedwyd y byddai wedi bod yn werthfawr clywed lleisiau dinasyddion er mwyn llywio eu syniadau. Teimlwyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i aelodau'r Panel

Dinasyddion weld eu hallbynnau a rhoi adborth arnynt o'u safbwynt hwy. Nid oeddent yn gwybod a oedd y Panel Dinasyddion wedi gweld eu hallbynnau, ond nid oeddent wedi cael unrhyw adborth.

*'I don't know too much about the Citizen Panel. I'm not sure whether they looked at the […] code of practice. If they did, their opinions weren't fed in to our group to take on board.'*

*'It would have been useful to have some feedback from service users about the [outputs]: if it made sense to them, if they understood what it was about, why we had to use it.'*

**Buddiannau cydgynhyrchu**

3.72 Holwyd rhanddeiliaid am bwysigrwydd defnyddio dull cydgynhyrchiol. Gofynnwyd iddynt hefyd a oedd eu rôl wedi eu helpu i ddeall y polisi, wedi eu galluogi i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt ac wedi newid eu cydberthnasau gwaith â Llywodraeth Cymru. Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau ar themâu a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â phwysigrwydd a buddiannau cydgynhyrchu o safbwynt rhanddeiliaid.

*Pwysigrwydd cael safbwyntiau amrywiol*

3.73 Dywedodd rhanddeiliaid fod defnyddio dull cydgynhyrchiol wedi arwain at ganlyniadau a chynhyrchion gwell gan eu bod wedi'u llywio gan safbwyntiau amrywiol. Dywedwyd bod iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn faes cymhleth sy'n effeithio ar bobl mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Felly roedd y newid polisi hwn o bwys i nifer fawr o grwpiau gwahanol ac ystyriwyd ei bod yn hanfodol ymgysylltu â hwy oherwydd y safbwyntiau gwahanol y byddent yn eu cyflwyno.

*'The more people and ideas you have around the table, the better the outcome is going to be... It's a longer process having to get stakeholders together to inform the process, it's harder, but what you come out with in the end is better.'*

*'You couldn't do anything else, could you? … If you want to tap into front line service delivery, you've got your stakeholders. If you want to tap into some of the policy backdrop, you've got your stakeholders.'*

3.74 Ystyriwyd bod safbwyntiau pobl sy'n deall beth sy'n digwydd ar lawr gwlad yn hynod o bwysig, gan gynnwys y rhai sy'n rheoli ac yn darparu gwasanaethau a dinasyddion sy'n cael neu'n darparu gofal a chymorth. Fel y nododd un rhanddeiliad, mae'n amhosibl i luniwr polisi feddwl am bopeth. O ran dinasyddion,

nodwyd y gall pawb gael barn ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ond y gall profiadau go iawn fod yn ffordd o sicrhau bod y broses yn ymwybodol o realiti gan eu bod yn aml yn wahanol i'r hyn y mae llunwyr polisi yn ei ddychmygu.

3.75 Er mwyn gwerthfawrogi lleisiau dinasyddion, dywedwyd bod angen newid meddylfryd gan gydnabod ei bod yn bwysig bod pobl yn gallu cyfrannu at unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. O gofio bod y pwynt hwn yn ganolog i'r Ddeddf ei hun, ystyriwyd ei bod yn hanfodol dangos hyn yn ymarferol wrth ddatblygu'r polisi.

*Mwy o berchenogaeth ymhlith rhanddeiliaid dros y newid polisi*

3.76 Ystyriwyd bod cynyddu perchenogaeth a chefnogaeth rhanddeiliaid yn un o fuddiannau eraill y dull cydgynhyrchiol. Mewn cyferbyniad â phrosesau llunio polisïau yn y gorffennol, y dywedwyd eu bod yn ddigyswllt ac yn seiliedig ar gyfarwyddiadau o'r canol, roedd dull cydgynhyrchiol yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn teimlo'n rhan o'r hyn a gynhyrchwyd. Roeddent yn llunio'r polisi yn rhannol, fel y dywedodd un rhanddeiliad.

3.77 Teimlai rhanddeiliaid fod perchenogaeth sy'n datblygu yn sgil dull cydgynhyrchiol yn fuddiol i'r canlyniad mewn sawl ffordd. Hawliwyd ganddynt fod rhanddeiliaid yn fwy tebygol o dderbyn y polisi, ei gefnogi ac ymddiried ynddo os oeddent hwy (neu'u cydweithwyr) wedi helpu i'w ddatblygu, hyd yn oed os nad oeddent yn cytuno â phob elfen. Roedd perchenogaeth hefyd yn creu hyrwyddwyr ar gyfer y newid polisi ar draws y sbectrwm cyfan o randdeiliaid a sectorau. Byddai hyn, yn ei dro, yn ei gwneud hi'n haws rhoi'r polisi ar waith gan y byddai cefnogaeth rhanddeiliaid yn lleihau unrhyw amharodrwydd ymhlith staff rheng flaen i newid.

> *'The last thing busy people want is a change in their practice… by having lots of people from different sectors being a part of the shaping, we could be ambassadors for the Act on behalf of Welsh Government, and explain what the aspirations are and that, even though it's painful to go through all the bureaucracy, the ultimate aim is the right thing to do.'*
>
> *'All stakeholders need to be taken along together… If you don't have full buy-in, then you're on the back foot.'*

*Dealltwriaeth well ymhlith rhanddeiliaid o'r polisi a phrosesau*

3.78 Teimlai'r tri grŵp fod cymryd rhan yn y camau datblygu wedi'u helpu i ddeall y polisi. Nododd dinasyddion na fyddent wedi gwybod am fodolaeth y Ddeddf fel arall hyd yn oed. Dywedodd rhanddeiliaid fod cymryd rhan wedi rhoi dealltwriaeth iddynt o'r

syniadau sy'n sail i'r newidiadau, bwriad y polisi a sut roedd y polisi'n datblygu. Drwy gymryd rhan hefyd, cafwyd cyfleoedd i glywed safbwyntiau rhanddeiliaid eraill ar sut y byddai'r newidiadau yn effeithio arnynt a phrofi'r safbwyntiau hynny yn erbyn eu rhai hwy, a chlywed sut roedd rhanbarthau gwahanol yn symud ymlaen. Roedd hyn yn bwysig i randdeiliaid am ei fod yn eu galluogi i baratoi’n well ar gyfer rhoi'r polisi ar waith o fewn eu sefydliad neu'u sector eu hunain. Dywedwyd ei fod yn arbennig o ddefnyddiol o ran ymdrin â'r elfennau hynny o'r Ddeddf a allai gael eu dehongli mewn sawl ffordd.

*‘It is quite a complex policy and it does require some careful thinking about what this actually means, what is intended and how do we make this happen. So having those opportunities to think about it and work it out were helpful.’*

3.79 Yn ogystal â'u helpu i ddeall y polisi penodol hwn, dywedodd rhai o aelodau'r grwpiau technegol a dinasyddion fod cymryd rhan wedi gwella eu dealltwriaeth o faterion llunio polisi a'r broses ddeddfwriaethol yn fwy cyffredinol, yn enwedig os mai dyma oedd eu profiad cyntaf o'r fath. Canfuwyd ei fod yn gwneud y broses yn fwy hygyrch ac yn golygu bod ganddynt fwy o barch at y gwaith sy'n cael ei wneud a'r heriau cysylltiedig.

*‘It increased my respect for the process, and the difficulty, and the amount of work that goes into preparing legislation that is going to be effective … I think my direct experience has increased trust in the process.’*

*‘It helped my understanding of the whole process of legislation and how it works and how we can influence it. In that respect, yes, perhaps it has changed my relationship; it has made it more accessible and I know what to expect.’*

*Ymdrechion rhanddeiliaid i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt*

3.80 Dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol eu bod wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt am y polisi â'u rhwydweithiau, ond roedd natur y wybodaeth a rannwyd a'r graddau y gwnaed hynny yn dibynnu ar sefydliad a rôl y rhanddeiliad. Dywedodd llawer o randdeiliaid eu bod wedi trafod y polisi â chydweithwyr o fewn eu sefydliadau a dywedodd rhai ohonynt eu bod wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt i gefnogi ymdrechion hyfforddiant eu sefydliad. Dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi cael sgyrsiau ehangach, lle bo hynny'n berthnasol i'w rôl. Dywedodd y rhai sy'n gweithio i gyrff ambarél eu bod wedi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r sefydliadau sy'n aelodau o'r cyrff hynny hefyd. Nododd rhai rhanddeiliaid ei bod yn bosibl na fyddai sgyrsiau am y polisi wedi digwydd o gwbl yn

eu maes oni bai am eu rôl yn y broses; nodwyd bod iechyd yn enghraifft o un maes o'r fath.

3.81 Dywedodd rhanddeiliaid hefyd fod eu rôl mewn gweithgareddau rhannu gwybodaeth a drefnwyd wedi bod yn fuddiol. Er enghraifft, teimlai aelod un grŵp technegol a aeth i un o sioeau teithiol yr ymgynghoriad ei bod yn bwysig bod y digwyddiadau hyn yn cael eu cefnogi nid yn unig gan swyddogion Llywodraeth Cymru ond hefyd gan randdeiliaid ehangach a oedd yn helpu i gydgynhyrchu'r polisi. Mewn enghraifft arall, gofynnwyd i'r Panel Dinasyddion annerch cynhadledd gwasanaethau cymdeithasol. Roedd rhai o aelodau'r panel yn awyddus i chwarae mwy o rôl o ran rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi'r Ddeddf ar waith yn gywir o safbwynt cynnwys dinasyddion, ond roeddent yn teimlo efallai bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr hyn y gallai aelodau'r panel ei ddweud yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai dinasyddion wedi cymryd rhan yn unigol mewn gweithgareddau o'r fath yn rhanbarthol, ar ôl i'r panel ddod i ben.

3.82 Dywedodd rhanddeiliaid fod gwybodaeth amserol a chlir wedi eu helpu i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt. Dywedwyd hefyd fod adnoddau a strategaeth gyfathrebu werthfawr wedi'u datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid. Trafodir cyfathrebu ymhellach ym mharagraff 3.62.

> *'Clear notes are always great, clear updates, clear briefings, anything we can send off, that's always good. But aside from that, that sort of interaction with members is our role really.'*

*Cydberthnasau gwaith cryfach â Llywodraeth Cymru*

3.83 Ar y cyfan, teimlai aelodau'r Grŵp Arwain, yn ogystal â rhai o aelodau'r grwpiau technegol, fod ganddynt gydberthnasau gwaith cryf â Llywodraeth Cymru yn barod. Felly, nid oeddent o'r farn bod eu cydberthnasau wedi newid. Fodd bynnag, teimlai rhai o aelodau'r grwpiau technegol, nad oeddent wedi rhyngweithio â Llywodraeth Cymru i'r un graddau o'r blaen, fod eu rôl wedi helpu i atgyfnerthu cydberthnasau gwaith â swyddogion polisi penodol, gan wneud iddynt deimlo eu bod yn haws mynd atynt. Yn olaf, roedd parodrwydd Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn thema a gododd drwy gydol y prosiect ac ystyriwyd bod hyn wedi helpu i greu cydberthynas fwy ymddiriedus ac adeiladol, gyda mwy o barch ar y ddwy ochr.

*‘I already had a good relationship anyway because of my role. I would have thought other people would probably say yes; I would hope they had seen an improvement, feeling better connected.’*

*‘I think it makes them more accessible; I think perhaps knowing a face is always a good thing. For us, I would say perhaps not because we were already quite keyed in anyway, but for the smaller groups who were new to it perhaps there would have been more of a change.’*

*‘There is genuine willingness by Welsh Government I can see to engage and to get all departments around the table to talk about issues and I think it is changing relationships.’*

*‘I have greater respect actually.’*

**Atodiad A: Canllaw Cyfweliad**

1. Pa mor bwysig, yn eich barn chi, oedd defnyddio dull cyd-gynhyrchiol i ddatblygu'r fframwaith statudol?
    - *Pam? Bedd oedd y manteision?*

2. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r dull o gydweithio i ddatblygu'r fframwaith statudol?
    - *Beth weithiodd yn dda? Beth gellid fod wedi ei wella?*
    - *Oedd y cyfarfodydd yn llwyddiannus fel fforwm ar gyfer cydweithredu?*
    - *Unrhyw argymhellion ar gyfer dulliau gwahanol o gydweithio?*

3. A oeddech chi'n teimlo bod eich barn yn cael ei ystyried o fewn y grŵp?

4. Pa mor effeithiol oeddech chi'n teimlo oedd eich cyfraniad yn datblygu'r fframwaith statudol?
    - *Pam ydych yn dweud hyn?*
    - *Gallai unrhyw beth fod wedi ei wneud yn wahanol?*

5. A oeddech chi'n teimlo bod y dull of weithio ynghyd i gyd-gynhyrchu'r fframwaith statudol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arbenigedd y sector?
    - *Pam ydych yn dweud hyn?*
    - *A oedd pob safbwynt pwysig wedi ei gynnwys?*

6. Ydych chi'n teimlo y bu unrhyw newid yn eich perthynas waith â Llywodraeth Cymru o ganlyniad i gymryd rhan yn y gwaith hwn?
    - *Ym mha ffordd newidiodd y berthynas waith, pam*

7. A wnaeth eich cyfranogiad wrth ddatblygu'r fframwaith statudol gefnogi a gwella eich dealltwriaeth o'r polisi?
    - *Unrhyw fanteision eraill?*

8. A wnaethoch chi rannu eich dysgu ynglŷn â'r polisi sy'n gysylltiedig â'r fframwaith statudol â chydweithwyr yn eich sefydliad neu sector?
    - *(Os na) pam ddim? Beth gallai fod wedi helpu chi wneud hyn?*

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi eu hychwanegu?